**CYNGOR SIR *POWYS***

**CABINET**
**19 Mawrth 2024**

| | |
|---|---|
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **Cynghorydd Sir Pete Roberts**<br>**Aelod Cabinet ar gyfer Powys sy'n Dysgu** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Categori Iaith Ysgol Bro Caereinion – Adroddiad Ymgynghori** |
| **ADRODDIAD AR GYFER:** | **Penderfyniad** |

## 1. Pwrpas

1.1 Yn dilyn y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 26 Medi 2023, mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad ar y cynnig canlynol:

- Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, fesul blwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i aelodau'r Cabinet am yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r broses statudol i newid categori iaith yr ysgol ai peidio.

1.3 Cefnogir yr adroddiad gan yr atodiadau canlynol:

- Atodiad A – Dogfen Ymgynghori
- Atodiad B – Adroddiad Ymgynghori
- Atodiad C – Cofnodion cyfarfodydd gyda Staff, Llywodraethwyr a Disgyblion
- Atodiad D – Asesiadau Effaith wedi'u Diweddaru

## 2. Cefndir

### Ysgol Bro Caereinion

2.1 Ysgol bob oed sydd wedi'i lleoli yn Llanfair Caereinion yng Ngogledd Powys yw Ysgol Bro Caereinion. Fe'i sefydlwyd ym mis Medi 2022 yn dilyn uno Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion ac Ysgol Uwchradd Caereinion.

2.2 Mae cyfnod cynradd yr ysgol yn gwasanaethu tref Llanfair Caerienion yn bennaf, tra bod y cyfnod uwchradd yn gwasanaethu dalgylch

ehangach. Yn benodol, y ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol fu'r brif ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhan hon o Ogledd Powys yn hanesyddol, gan wasanaethu trefi'r Drenewydd a'r Trallwng yn ogystal â dalgylch traddodiadol Llanfair Caereinion.

2.3 Sefydlwyd Ysgol Bro Caereinion fel ysgol bob oed dwy ffrwd, gan adlewyrchu categorïau iaith yr ysgol gynradd ac uwchradd flaenorol yn Llanfair Caereinion. Fodd bynnag, cydnabuwyd cryfder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon drwy gydol y cynnig. Yn benodol, cydnabuwyd bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd yn Llanfair Caereinion yn ganolog i ddyhead y Cyngor i ddarparu mynediad at ddarpariaeth uwchradd Gymraeg well ar gyfer disgyblion yr ardal.

2.4 Mae disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol fel a ganlyn[1]:

| | **D** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** | **13** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrwng Cymraeg** | 12 | 7 | 11 | 7 | 14 | 11 | 12 | 42 | 35 | 30 | 36 | 40 | 14 | 21 | 292 |
| **Cyfrwng Saesneg** | 0 | 7 | 6 | 8 | 5 | 8 | 16 | 25 | 43 | 45 | 35 | 38 | 13 | 8 | 257 |
| **Cyfanswm** | **12** | **14** | **17** | **15** | **19** | **19** | **28** | **67** | **78** | **75** | **71** | **78** | **27** | **29** | **549** |

2.5 Yn haf 2023, cynhaliwyd sgyrsiau am ddarpariaeth iaith yr ysgol yn y dyfodol, yng nghyswllt cyflwyno categorïau iaith newydd gan Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r sgyrsiau hyn, esboniodd cynrychiolwyr o'r ysgol wrth y Cyngor fod y model dwy ffrwd presennol yn achosi heriau, a'i bod wedi dod i'r amlwg bod angen adolygu categori iaith yr ysgol.

2.6 Yn dilyn hynny, cynhaliodd y Cyngor arfarniad opsiynau i ystyried opsiynau ar gyfer categori iaith yr ysgol yn y dyfodol. Roedd hyn yn nodi'r opsiwn a ffefrir canlynol:

- Newid iaith y ddarpariaeth ar draws yr ysgol gyfan i gyfrwng Cymraeg
- Cyflwyno'r newid yn y ddarpariaeth iaith fesul cam, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025
- Byddai hyn yn golygu y byddai pob disgybl yn yr ysgol yn y pen draw yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau y byddent i gyd yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

[1] Data a ddarparwyd gan yr ysgol 060923

- Byddai cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r newid e.e. darpariaeth Trochi, hyfforddiant Cymraeg i staff / rhieni.

2.7 Ar 26 Medi 2023, ystyriodd y Cabinet bapur cynnig mewn perthynas â chategori iaith Ysgol Bro Caereinion, a chytunodd i ddechrau ymgynghori ar y canlynol:

- I wneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

2.8 Mae ymgynghoriad wedi cael ei gynnal wedi hynny, fel y cytunwyd gan y Cabinet.

**Y Cyfnod Ymgynghori**

2.9 Dechreuwyd ymgynghoriad ar y cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion ar 19 Hydref 2023, a daeth i ben ar 7 Rhagfyr 2023.

2.10 Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Dosbarthwyd y ddogfen hefyd i randdeiliaid fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd wedi'i atodi fel Atodiad A.

2.11 Gofynnwyd i'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy ymateb i'r ymgynghoriad naill ai drwy gwblhau'r ffurflen ymgynghori ar-lein, llenwi copi papur o'r ffurflen a'i dychwelyd i'r Tîm Trawsnewid Addysg, neu drwy ysgrifennu at y Tîm Trawsnewid Addysg.

2.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion Ysgol Bro Caereinion ac Ysgol Rhiw Bechan. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn ynghlwm fel Atodiad C, ac mae'r materion a godwyd yn y cyfarfodydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori (Atodiad B).

**Ymatebion i'r ymgynghoriad**

2.13 Cwblhaodd 493 o ymatebwyr y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a gynhwyswyd yn y ddogfen ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys copïau papur yn ogystal ag ymatebion a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein.

2.14 Yn ogystal, derbyniwyd 30 o ymatebion ysgrifenedig drwy e-bost neu'r post gan ymatebwyr, gan gynnwys Estyn. Darperir ymateb Estyn i'r ymgynghoriad ar dudalen 33 o'r Adroddiad Ymgynghori (Atodiad B).

2.15 Hefyd, derbyniwyd 336 o ymatebion ysgrifenedig gan ddisgyblion Ysgol Bro Caereinion.

2.16 Derbyniwyd 205 o gardiau post hefyd a oedd yn cynnwys y datganiad canlynol:

*Hoffwn ddatgan fy nghefnogaeth i'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion / I wish to declare my support for the proposal to change the language category of Ysgol Bro Caereinion*

2.17 Roedd yr ymatebion ysgrifenedig hefyd yn cynnwys canlyniadau holiadur ar-lein, a oedd yn gofyn i'r ymatebwyr nodi a oeddent yn cytuno â'r datganiad a gynhwyswyd ar y cardiau post a ddarparwyd yn 2.16 uchod. Dywedodd 273 o ymatebwyr (90.7%) eu bod yn anghytuno â'r datganiad, tra nododd 28 o ymatebwyr (9.3%) eu bod yn cytuno â'r datganiad.

**Canfyddiadau'r Ymgynghoriad**

2.18 Darperir canfyddiadau'r ymgynghoriad yn llawn yn yr Adroddiad Ymgynghori (Atodiad B).

2.19 Rhestrir y materion a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad a'r rhai a godwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori yn yr Adroddiad Ymgynghori (Atodiad B), o dudalen 37 ymlaen, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hynny.

2.20 Mae'r materion a godwyd yn ymwneud â'r penawdau canlynol:

**Sylwadau i gefnogi'r cynnig**

- Dylai’r cynnig hwn wedi digwydd cyn hyn
- Bydd y cynnig yn arwain at well darpariaeth yn yr ysgol
- Bydd y cynnig yn arwain at ethos Cymraeg cryfach yn yr ysgol
- Effaith gadarnhaol ar ddisgyblion
    - Byddai disgyblion yn cael gwell cyfleoedd i ddod yn gwbl ddwyieithog
    - Byddai gwell sgiliau Cymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yn y dyfodol
- Bydd y cynnig yn diogelu'r ddarpariaeth uwchradd yn Llanfair Caereinion
- Llanfair Caereinion yw'r lleoliad cywir ar gyfer darpariaeth uwchradd Gymraeg ddynodedig
- Cefnogaeth i weithredu’r cynnig yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ar yr un pryd
- Byddai'r cynnig yn darparu dilyniant i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg
- Byddai'r cynnig yn darparu cyfartaledd i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg

- Mae'r cynnig yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal
- Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn yr ardal
- Sylwadau am fodelau cyflenwi cyfrwng Cymraeg
  - Pryderon am y model dwy ffrwd
  - Sylwadau positif am ysgolion Cymraeg
- Sylwadau am staffio
  - Effaith bositif ar staff presennol
  - Byddai'n haws denu staff
  - Sylwadau eraill
- Sylwadau am effaith ar y gymuned
- Mae'r cynnig yn cefnogi gweithredu strategaethau amrywiol
- Sylwadau eraill

**<u>Sylwadau nad ydynt yn cefnogi'r cynnig</u>**

- Sylwadau am yr effaith ar ddisgyblion
  - Effaith ar les disgyblion
  - Effaith ar gyflawniad disgyblion
  - Pryder am yr effaith ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg yn ystod y cyfnod pontio
  - Ni fyddai disgyblion yn gallu symud o un ffrwd i'r llall
  - Byddai disgyblion cyfrwng Saesneg yn clywed llai o Gymraeg
  - Mae disgyblion angen sgiliau Saesneg nid sgiliau iaith Gymraeg
  - Pryder am yr effaith ar allu disgyblion i gael mynediad i addysg bellach / uwch
  - Sylwadau eraill
- Sylwadau'n ymwneud â threfniadau gweithredu
  - Pryder am yr amserlen arfaethedig
  - Pryder am y newid arfaethedig i'r ddarpariaeth ym mlwyddyn 7
  - Sylwadau am drefniadau trafnidiaeth
  - Pryder am ddarpariaeth Trochi
- Sylwadau am yr effaith ar rieni / teuluoedd
  - Ni fydd rhieni / teuluoedd yn gallu cefnogi eu plant
  - Efallai y bydd gan rieni / teuluoedd blant mewn mwy nag un ysgol
- Sylwadau am staffio
  - Pryder am yr effaith ar staff
  - Pryder am y gallu i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg
  - Pryder am ansawdd staff yn y dyfodol
- Pryder am effaith ar y gymuned
  - Bydd y cynnig yn achosi rhaniad yn yr ardal

    - Pryder na fyddai pobl eisiau byw yn yr ardal
    - Ni fyddai ysgol Gymraeg yn adlewyrchu'r gymuned ddwyieithog yn Llanfair Caereinion
    - Pryder am yr effaith ar dimau chwaraeon a digwyddiadau eraill yn yr ardal
    - Sylwadau eraill am effaith ar y gymuned
- Pryder am yr effaith ar niferoedd disgyblion Ysgol Bro Caereinion
- Sylwadau am yr angen am ddewis
- Sylwadau am wahaniaethu / gwahanu
- Pryder am yr effaith ar y Gymraeg
- Nid Llanfair Caereinion yw'r lleoliad cywir ar gyfer ysgol Gymraeg
- Sylwadau eraill

**<u>Sylwadau eraill</u>**

- Sylwadau am Ysgol Bro Caereinion
    - Sylwadau am y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgol
    - Sylwadau am adeiladau a chyfleusterau'r ysgol
    - Mae disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn wahanol
    - Mae disgyblion cyfrwng Saesneg yn yr ysgol yn elwa o glywed mwy o Gymraeg
    - Sylwadau am lywodraethwyr Ysgol Bro Caereinion
- Sylwadau / ymholiadau am ysgolion eraill
    - Ysgol Rhiw Bechan
    - Darparwyr cynradd eraill
    - Darparwyr uwchradd eraill
- Sylwadau am effaith ar staff
- Sylwadau am gefnogaeth ychwanegol y byddai ei hangen i gefnogi'r newid
    - Darpariaeth Trochi
    - Cymorth ychwanegol i ddisgyblion
    - Darpariaeth ADY
    - Cefnogaeth i staff
    - Cefnogaeth i rieni
    - Trefniadau trafnidiaeth
    - Hyrwyddo pontio i Ysgol Bro Caereinion ar gyfer disgyblion Cymraeg yn yr ardal
    - Cyllid ychwanegol
    - Buddsoddiad cyfalaf
    - Codi ymwybyddiaeth
    - Sylwadau / ymholiadau eraill
- Ymholiadau ariannol
    - Sylwadau am effaith ariannol y cynnig

  - Sylwadau am sefyllfa ariannol Ysgol Bro Caereinion
  - Sylwadau am drefniadau ariannu'r Cyngor
  - Sylwadau eraill
- Sylwadau am Lywodraeth Cymru
- Opsiynau Eraill
  - Cadw ysgol ddwy ffrwd yn Llanfair Caereinion
  - Cyfnod Derbyn yn unig
  - Newid yr amserlen
  - Gweithredu'r newid yn y cynradd ond nid yr uwchradd
  - Cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr cyfrwng Saesneg Ysgol Bro Caereinion
  - Agor ysgol Gymraeg mewn lleoliad eraill
  - Cyflwyno darpariaeth Gymraeg mewn mannau eraill
  - Adolygu ysgolion eraill
  - Cau'r ysgol
  - Buddsoddiad yn yr ysgol
  - Datblygu'r ddarpariaeth yn Ysgol Bro Caereinion
  - Awgrymiadau eraill
- Beirniadaeth o'r Cyngor
- Sylwadau am y broses ymgynghori
  - Sylwadau am gyfarfodydd / ymgysylltu â'r gymuned
  - Sylwadau am ymgynghori â disgyblion
  - Sylwadau am ymgysylltu anffurfiol
  - Sylwadau am amseru'r cynnig
  - Nid yw'r ymgynghoriad yn gyfreithlon
  - Mae'r ymgynghoriad yn rhagfarnllyd
  - Dylai mwy o wybodaeth fod wedi cael ei rhannu i gefnogi'r ymgynghoriad
  - Sylwadau am gyfathrebu
  - Pryder am bobl o'r tu allan i'r ardal yn dylanwadu ar y penderfyniad
  - Sylwadau eraill
- Sylwadau am y ddogfennaeth ymgynghori
  - Sylwadau cyffredinol am y ddogfennaeth
  - Sylwadau / ymholiadau am rannau penodol o'r ddogfennaeth
  - Sylwadau / ymholiadau am ddata
  - Sylwadau am y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad
  - Ceisiadau am wybodaeth ychwanegol
  - Sylwadau / ymholiadau eraill
- Ceisiadau am wybodaeth ychwanegol
- Sylwadau / ymholiadau eraill

## 3. <u>Cyngor</u>

3.1 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad, cyngor swyddogion yw y dylai'r Cyngor fwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion drwy gyhoeddi Rhybudd Statudol.

3.2 Fodd bynnag, cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch effaith cyflwyno'r newid yn y cyfnod uwchradd ym mis Medi 2025 ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd, yn ogystal â'r pryderon a godwyd mewn perthynas â threfniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion a fyddai'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill yn hytrach na chael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion.

3.3 Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch y cynnig i weithredu'r cynnig yn y cyfnod uwchradd, argymhellir newid y dyddiad y bydd y newid yn dechrau yn y cyfnod uwchradd, o fis Medi 2025 i fis Medi 2026. Byddai hyn yn rhoi blwyddyn arall i allu gwneud trefniadau i ddisgyblion gael mynediad at ddarpariaeth 'Trochi', a bydd hefyd yn rhoi blwyddyn arall i ddisgyblion a'u teuluoedd ystyried eu dewisiadau. Byddai hyn yn golygu na fyddai disgyblion ym mlynyddoedd 5 a 6 ar hyn o bryd yn cael eu heffeithio gan y newid yn y categori iaith, a'r flwyddyn 4 bresennol fyddai'r garfan gyntaf fyddai'n cael eu heffeithio.

3.4 Mae'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol presennol yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cymwys i'w hysgol addas agosaf. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni fyddai'n darparu cludiant i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg lle mae darpariaeth agosaf disgybl yn gyfrwng Cymraeg. Roedd hwn yn fater a achosodd bryder yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch yr effaith ar ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal ar hyn o bryd, argymhellir cynnig cludiant ychwanegol i ddisgyblion sydd wedi'u heffeithio gan y newid arfaethedig, **fel mesur dros dro.** Cynghorir bod cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i'w hysgol uwchradd cyfrwng Saesneg agosaf yn cael ei gynnig i'r disgyblion hynny sydd (a) ym mlynyddoedd 4 ac is yn Ysgol Bro Caereinion ac Ysgol Rhiw Bechan ar hyn o bryd a (b) sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgolion hynny ar hyn o bryd, pan fyddant yn trosglwyddo o addysg gynradd i uwchradd o fis Medi 2026 ymlaen. Ar hyn o bryd mae 57 o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn hyn yn y ddwy ysgol, ac er mai'r bwriad yw cynnig Trochi Pontio i'r disgyblion hyn i'w galluogi i fynychu'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Bro Caereinion pe bai'r cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo, mae cydnabyddiaeth hefyd na fyddai pob rhiant/disgybl am wneud hyn, ac efallai y bydd rhai yn dewis addysg uwchradd cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill yn lle hynny.

3.5 Byddai'r ddarpariaeth cludiant a amlinellir uchod dim ond ar gael i ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion neu Ysgol Rhiw Bechan ar hyn o bryd, ac ni fyddai ar gael i unrhyw ddisgyblion newydd oed Derbyn a fydd yn ymuno ag

Ysgol Bro Caereinion nac Ysgol Rhiw Bechan yn y dyfodol. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer y disgyblion hyn yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor.

3.6 Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â chyhoeddi Hysbysiad Statudol, ac yn y pen draw yn cytuno i fwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, efallai y bydd angen archwilio'r posibilrwydd o ddiwygio Polisi Cludiant Cartref i'r Ysgol y Cyngor i wahaniaethu rhwng darparwr uwchradd cyfrwng Cymraeg a darparwr uwchradd dwy ffrwd, er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig yn gallu gwneud hynny. Byddai hyn yn amodol ar ymgynghoriad ar wahân yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru).

3.7 Yn seiliedig ar y cyngor uchod, cynigir bod y Cyngor yn cyhoeddi Rhybudd Statudol sy'n cynnig y canlynol:

- I wneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2025 a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2026.

3.8 Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon
- Gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg
- Byddai'n arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y tymor hirach
- Yn y pen draw, byddai'n darparu mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig
- Cyfle i ddenu mwy o ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn y tymor hirach
- Yn bodloni dyheadau Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys
- Yn cwrdd â dyheadau CSCA y Cyngor
- Arbedion ariannol posibl i'r awdurdod
- Byddai disgyblion cyfrwng Saesneg cyfredol yn gallu parhau i gael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy gydol y cyfnod cynradd neu uwchradd, yn dibynnu ar ba grŵp blwyddyn y maent ynddo.
- Byddai'n caniatáu amser i roi cymorth ychwanegol i ddisgyblion i gefnogi'r newid.
- Byddai'n caniatáu amser i unrhyw ddatblygiad staff a dysgu proffesiynol angenrheidiol ddigwydd i gefnogi'r newid.
- Cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg yn y tymor hwy.

3.9 Rhagwelir y byddai'r Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2024, ac y byddai'r Cabinet yn ystyried adroddiad pellach, sy'n crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd, ym mis Gorffennaf 2024.

## 4. Goblygiadau Adnoddau

4.1 Mae swm y cyllid dirprwyedig a ddarperir i ysgolion unigol yn cael ei yrru gan y fformiwla ariannu, sy'n dosbarthu'r gyllideb ddirprwyedig ysgolion y cytunwyd arni gan y Cyngor. Bydd unrhyw newid i'r cyllid fformiwla a ddarperir yn effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor. Yn seiliedig ar y fformiwla newydd sydd ar waith o 1 Ebrill 2024, bydd y gofynion cyllido fformiwla cyffredinol yn lleihau o ganlyniad i'r cynigion hyn. Mae cyfradd yr arbedion yn dibynnu ar ba ragdybiaethau a wneir ynghylch a yw dysgwyr yn y ffrwd Saesneg ar hyn o bryd yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg arall mewn ysgolion eraill neu'n parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn parhau i fynychu Ysgol Bro Caereinion

4.2 Mae'r arbedion ariannol i'r Cyngor a amcangyfrifir o ganlyniad i'r cynnig hwn wedi'u hailgyfrifo gan ddefnyddio'r fformiwla ariannu newydd, a gan ystsyried y newid yn yr amserlenni gweithredu. Yr arbediad ariannol diwygiedig yw £316k yn dilyn gweithredu'r cynnig yn llawn. Yr amcangyfrif blaenorol a gyhoeddwyd yn y ddogfen ymgynghori oedd £383k.

4.3 Pe bai'r disgyblion hynny sydd ar hyn o bryd yn y ffrydiau Saesneg cynradd yn Ysgol Bro Caereinion ac Ysgol Rhiw Bechan, sydd i fod i ddechrau Blwyddyn 7 ym mis Medi 2026 neu ar ôl hynny (h.y. blwyddyn derbyn i flwyddyn 4 ar hyn o bryd) yn dewis symud i ddarparwr uwchradd cyfrwng Saesneg arall yn hytrach na chael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, yna mae'r arbedion amcangyfrifedig i'r Cyngor yn gostwng i £106k pan fydd y newid yn cael ei weithredu'n llawn.

4.4 Ar hyn o bryd, mae disgyblion yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i'w hysgol agosaf neu ddalgylch. Os penderfynir darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion sydd ym Mlwyddyn 4 ac is yn Ysgol Bro Caereinion ac Ysgol Rhiw Bechan i'w hysgol uwchradd cyfrwng Saesneg agosaf, yna uchafswm y costau trafnidiaeth a amcangyfrifir fyddai tua £80k y flwyddyn, ond byddai hyn wedyn yn lleihau dros gyfnod y trefniant hwn. Bydd hefyd yn newid yn dibynnu ar ddewis rhieni. Nid yw'r arbedion cyffredinol uchod yn cynnwys y costau cludiant ychwanegol hyn, felly byddai hyn yn lleihau cyfanswm yr arbediad.

4.5 Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r ysgol i sicrhau bod cyllideb yr ysgol yn cydymffurfio â'r cynllun ar gyfer ariannu ysgolion a'i fod o fewn yr amlen ariannu sydd ar gael.

4.6 Mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) yn nodi’r adroddiad ac yn cefnogi’r argymhellion.

**5. Goblygiadau cyfreithiol**

5.1 Cyfreithiol: Gellir cymeradwyo'r argymhellion o safbwynt cyfreithiol

5.2 Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro wedi gwneud sylw fel a ganlyn: "Rwy'n nodi'r sylw cyfreithiol ac yn cefnogi'r argymhellion".

**6. Newid yn yr Hinsawdd a Goblygiadau Natur**

6.1 Er mai'r dyhead yw i'r holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd barhau i gael mynediad i'r ysgol, cydnabyddir y gall rhai disgyblion cyfrwng Saesneg ddewis cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill, yn enwedig gan fod y Cyngor yn cynnig darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion yr effeithir arnynt. Gallai hyn gael effaith negyddol ar yr amgylchedd yn y tymor byr, gan y byddai angen darparu cludiant ychwanegol o'r cartref i'r ysgol i gludo disgyblion i'w hysgol arall agosaf. Yn y tymor hwy, y disgwyliad yw y byddai pob disgybl yn ardal Llanfair Caereinion yn cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac felly yn cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd yn Llanfair Caereinion.

**7. Diogelu Data**

7.1 Amherthnasol

**8. Sylwadau gan aelodau (au) lleol**

Cyng. Gareth D. Jones (Llanfair Caereinion a Llanerfyl):

‘Mae'r penderfyniad i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion er ei fod yn cael ei groesawu gan lawer hefyd yn bryder i nifer fawr o drigolion o fewn dalgylch Caereinion. Ar hyn o bryd mae ffigyrau'n dangos bod llawer o rieni yn awyddus i gael addysg eu plant drwy'r Gymraeg, yn enwedig yn y cyfnod cynradd, ond mae gan rai amheuon o ran addysg cyfnod uwchradd (wedi'u gyrru o'r safbwynt nad ydynt yn gallu cefnogi eu plant os and ydynt yn siaradwyr Cymraeg eu hunain) Er mwyn i'r cynnig hwn gael pob cyfle i lwyddo, rhaid sicrhau bod pecyn cyllido 10 mlynedd ychwanegol ar gael yn ychwanegol at y fformiwla ariannu Ysgolion bresennol. Byddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer:-

1. **Cyfathrebu.** *Cynllun cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus parhaus – i ddileu unrhyw gamsyniadau a allai fodoli, ond hefyd i ddarparu gwybodaeth wrthrychol am addysg ddwyieithog.*

2. **Trochi.** *Bydd angen i ddysgwyr, staff a rhieni gael pob cyfle i gael mynediad at wasanaeth Trochi Cymraeg.*
3. **Fformiwla Ariannu.** *Mae'n debygol iawn y bydd niferoedd o fewn yr ysgol yn gostwng yn y blynyddoedd i ddod. Gyda'r fformiwla ariannu gyfredol, ar y dechrau bydd yn anodd i'r ysgol gyflwyno cyllideb gytbwys a chynnig ystod eang o bynciau. Heb gyllid ychwanegol bydd yn her i'r ysgol gyflawni ei huchelgeis o gyrraedd safonau uchel o addysg ac adeiladu llwyfan cryf ar gyfer y dyfodol, yn ei dro i ddenu mwy o ddysgwyr.*
4. **Buddsoddiad Cyfalaf.** *Mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn seilwaith yr ysgol gan gynnwys y cae 2G hir ddisgwylidig.*

Mae trafnidiaeth yn bwnc y mae angen edrych arno o hyd. Mae sawl rhiant o fewn y gymuned na fyddan nhw am roi eu plant drwy addysg Gymraeg, mae peidio cynnig cludiant i ysgol arall yn annerbyniol.

Rhaid gweld sefydlu Ysgol Bo Caereinion fel Ysgol cyfrwng Cymraeg yn y cyd-destun ehangach na dalgylch traddodiadol Caereinion yn unig, os bydd y cabinet yn penderfynnu bwrw ymlaen yna bydd angen ailedrych ar y dalgylchoedd ar frys, gan fod hwn yn benderfyniad strategol sy'n effeithio ar ddarpariaeth addysg ar draws gogledd y Sir.

Wedi'i drin yn wael, gallai hyn rannu cymuned gref, wedi'i drin yn gywir gydag ymrwymiad ariannol 10 mlynedd ynghyd â chyfathrebu gwell, mae potensial am rhywbeth y gallwn fod yn falch iawn ohono.'

## 9. <u>Asesiad Effaith Integredig</u>

9.1 Cafodd asesiad effaith cychwynnol ei ystyried gan y Cabinet ar 26 Medi 2023.

9.2 Yn ogystal, paratowyd ystod o asesiadau effaith drafft fel rhan o'r dogfennaeth ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys Asesiad Effaith Integredig, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Effaith Cymunedol.

9.3 Mae'r asesiadau effaith drafft hyn wedi'u diweddaru i adlewyrchu’r materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac maent ynghlwm yn Atodiad D.

9.2 Mae'r crynodeb o'r asesiad effaith fel a ganlyn:

"Mae'r asesiad effaith drafft yn dangos bod effaith y cynnig yn gadarnhaol yn gyffredinol. Yn y pen draw, byddai'r cynnig yn darparu model mwy cynaliadwy ar gyfer darparu addysg yn Ysgol Bro Caereinion, gan sicrhau bod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Y cynnig yw newid categori iaith yr ysgol dros amser, a fyddai'n lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion ar

hyn o bryd, ond byddai hefyd yn sicrhau, yn y pen draw, y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac y byddai'n dod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai hyn yn arwain at well cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr ysgol ac o fewn y gymuned a byddai'n rhoi sgiliau dwyieithog i'r disgyblion hynny eu cymryd i'r gweithle.

Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai effaith ar ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd gan na fyddent bellach yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion. Codwyd pryderon am yr effaith ar y disgyblion hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Byddai cefnogaeth ychwanegol fel Trochi Pontio (cymorth iaith ymdrochol) ar gael i ddisgyblion a fyddai'n cael eu heffeithio pe byddent yn dymuno parhau â'u haddysg yn Ysgol Bro Caereinion, fodd bynnag, bydd angen ystyried yr effaith ar y disgyblion hyn yn benodol wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig ai peidio.'

## 9. Argymhelliad

i) Derbyn yr Adroddiad Ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion.

ii) Cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol sy'n cynnig y canlynol:

- Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2025 a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2026.

Byddai hyn yn golygu:

- Byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn cael ei chyflwyno'n raddol fesul blwyddyn, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2025 a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2026 – ac ar ôl hynny byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ac yn dod yn gwbl ddwyieithog, h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Byddai cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r newid e.e. darpariaeth Trochi, hyfforddiant Cymraeg i staff / rhieni.

iii) Cymeradwyo ar sail disgresiwn fel y caniateir gan Bolisi Cludiant Cartref i'r Ysgol y Cyngor gynnig cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion ym mlynyddoedd 4 ac iau yn Ysgol Bro

Caereinion ac Ysgol Rhiw Bechan i'w darparwr uwchradd cyfrwng Saesneg agosaf pan fyddant yn trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.


| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Sarah Astley / Marianne Evans |
| Ffôn: | 01597 826265 / 01597 826155 |
| E-bost: | sarah.astley@powys.gov.uk / marianne.evans@powys.gov.uk |

Pennaeth Gwasanaeth: Georgie Bevan

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Lynette Lovell


**CABINET ADRODDIAD TEMPLED FERSIWN X**